Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

5. Ymddiriedolwyr a llywodraethu

5.2 Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Yn y daflen wybodaeth hon, defnyddir y term ‘ymddiriedolwr’ i ddisgrifio aelodau o gorff llywodraethu mudiadau gwirfoddol nad ydynt yn elusen, ac ymddiriedolwyr elusennau. Defnyddir y term ‘ymddiriedolwr elusen’ pan fo angen gwahaniaethu rhwng aelodau o gorff llywodraethu elusennol.

Rhagarweiniad

Mae’n gallu bod yn anodd weithiau cael darlun llawn o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwr. Mae rhai’n ofynion cyfreithiol sy’n cynnwys sancsiynau os na chydymffurfir â nhw, ystyrir eraill fel ymarfer da, ac mae eraill eto sy’n cael eu gweld fel ymrwymiadau moesol. Mae cryn orgyffwrdd â’r cysyniad ehangach o ‘lywodraethu’ a dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â thaflen wybodaeth *5.1 Egwyddorion llywodraethu.*

Gellir disgrifio llywodraethu fel: *y systemau a’r prosesau sy’n ymwneud â sicrhau cyfeiriad cyffredinol, goruchwyliaeth ac atebolrwydd y mudiad.* Mae’n golygu bod yn gyfrifol am redeg mudiad neu gorff yn gyffredinol a gwneud popeth o fewn y gyfraith i sicrhau ei lwyddiant.

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwr yn agwedd gulach ar y cysyniad cyffredinol o lywodraethu. Dyletswydd yw ymrwymiad cyfreithiol a gall bron i bob dyletswydd arwain at atebolrwydd os nad yw’n cael ei gyflawni. Gall ymddiriedolwyr fod yn bersonol atebol os ydynt yn methu â chyflawni eu dyletswyddau ac mae canllawiau pellach ar hyn ar gael yn ein taflen wybodaeth *5.7 Atebolrwydd ymddiriedolwyr ac aelodau o gyrff llywodraethu*. Yn ychwanegol at ddyletswyddau, mae’n deg dweud bod gan ymddiriedolwr gyfrifoldebau cymhellol sydd, er nad ydynt efallai’n ymrwymiad cyfreithiol, yn cael eu hystyried i fod yn hanfodol i redeg y mudiad yn dda.

Gall dyletswyddau a chyfrifoldebau fod yn:

- **Statudol**, sy’n deillio o:
  - weithgareddau fel cyflogi staff; meddiannu adeiladau; darparu gwasanaethau; codi arian; ayb
  - bod yn elusen gofrestredig a / neu’n gwmni
  - bod yn ymddiriedolaeth.

- **Cytundebol**, sy'n deillio o:
  - ddogfen lywodraethu'r mudiad sy'n ffurfio contract rhwng y mudiad a'r aelodau
  - cytundebau cyfreithiol gyda thrydydd partïon fel contractau cyflogaeth; prydlesau; contractau am nwyddau a gwasanaethau; ayb.
- **Cyfraith gyffredin**, sy'n deillio o: benderfyniadau'r llysoedd sy'n sefydlu egwyddorion a dyletswyddau cyfreithiol sy'n berthnasol i ymddiriedolwyr.**Dyletswyddau ymddiriedolwyr**, sy'n deillio o: gyfraith elusennau ac ymddiriedolaethau.
- **Ymarfer da**, sy'n deillio o: farn gyfredol arweinwyr ac arbenigwyr ar y sector, ac arferion sefydledig o fewn sector penodol.
- **Ymrwymiadau moesol**, sy'n deillio o: addewidion a wnaed gan y mudiad, neu gredoau egwyddorol eraill sy'n tywys gweithredoedd y mudiad.

Mae'n glir bod ymddiriedolwyr yn wynebu dyletswyddau sy'n *rhaid* iddynt gydymffurfio â nhw, a chyfrifoldebau y *dylent* gydymffurfio â nhw. Ar y cyfan, mae ymddiriedolwyr yn rhoi yr un pwysau ar y ddau gan eu bod eisiau gwneud eu gorau, ond yn achos ymddiriedolwyr elusen, mae'r Comisiwn Elusennau yn gwneud gwahaniaeth clir iawn rhwng *'rhaid'* a *'dylent'* yn ei ganllawiau.

Mae dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen wedi eu deall a'u diffinio'n glir, ond mae hefyd yn bwysig cofio bod gan ymddiriedolwyr cyrff nad ydynt yn elusen rai dyletswyddau cyfreithiol hefyd, yn enwedig yng nghyswllt cyfraith cwmnïau, ac mewn sefyllfaoedd eraill fel dyletswyddau at weithwyr a chyfrifoldeb i ddychwelyd ffurflenni ariannol – ymdrinnir â rhai o'r rhain isod. Fodd bynnag, mae'n deg dweud y dylai ymddiriedolwyr cyrff nad ydynt yn elusen hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, lynu at yr egwyddorion a luniwyd ar gyfer ymddiriedolwyr elusen.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr elusen

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Efallai y gelwir nhw yn ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu'n aelodau pwyllgor ayb. Beth bynnag yw eu henw, mae unrhyw un sy'n gyfrifol am redeg a rheoli gweinyddiaeth elusen yn cael ei ddosbarthu fel ymddiriedolwr elusen (Deddf Elusennau 1993, a. 47).

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr elusen wedi eu disgrifio mewn sawl ffordd, ond gwell cyfeirio at ganllawiau presennol y Comisiwn Elusennau yn eu cyhoeddiad, *The Essential trustee: What you need to know* (CC3).

Ymddiriedolwyr elusen sydd, a rhaid iddynt dderbyn mai nhw yn y pen draw sy'n gyfrifol am gyfarwyddo busnes eu helusen, am sicrhau ei bod yn ddiddyled ac yn cael ei rhedeg yn dda, ac yn darparu'r canlyniadau elusennol er budd y cyhoedd y cafodd ei sefydlu ar eu cyfer:

Sicrhau cydymffurfio – rhaid i ymddiriedolwyr elusen sicrhau bod eu helusen yn cydymffurfio gyda:

- Chyfraith elusennau, a gofynion y Comisiwn Elusennau fel corff rheoleiddio; yn enwedig, rhaid iddynt sicrhau bod yr elusen yn paratoi adroddiadau ar ei gwaith, ac yn cyflwyno ffurflenni a chyfrifon ariannol fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y cyhoeddiad, *The Hallmarks of an Effective Charity* (CC60).
- Y gofynion neu'r rheolau, a'r pwrpas a'r amcanion elusennol, a nodir yn nogfen lywodraethu'r elusen. Dylai fod gan bob ymddiriedolwr elusen gopi o'r ddogfen hon, a bod yn gyfarwydd â hi.
- Gofynion unrhyw ddeddfwriaeth arall a chyrff rheoleiddio eraill (os oes rhai) sy'n llywodraethu gweithgareddau'r elusen; bydd y rhain yn amrywio yn ôl y math o waith a wneir gan yr elusen, ac a ydyw'n cyflogi staff neu wirfoddolwyr.
- Bod raid i ymddiriedolwyr elusen ymddwyn yn onest, a pheidio ag elwa o'u swydd, ac osgoi unrhyw wrthdaro budd personol neu gamddefnyddio cyllid neu asedau'r elusen. Dylent ddarllen dogfen lywodraethu'r elusen i weld beth yw'r darpariaethau o ran gwrthdaro budd a rhoddir mwy o wybodaeth am hyn yn yr adran *Arweiniad i Elusennau* ar wefan y Comisiwn Elusennau, ac yn y cyhoeddiad *Payment of Charity Trustees* (CC11).

Yn ogystal â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol y gyfraith elusennau, a chyfraith cwmnïau yn achos mudiadau corfforedig, rhaid i ymddiriedolwyr hefyd gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol cyffredinol canlynol:

- Y darpariaethau'n ymwneud â chysylltiadau â chodwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol sy'n dod o dan Ran II Deddf Elusennau 1992 ar hyn o bryd, ac a ddisodlwyd wedyn gan Ddeddf Elusennau 2006 ar ddiwedd 2007.
- Yr amrywiaeth o reoliadau sy'n llywodraethu casgliadau cyhoeddus ar y stryd ac 'o dŷ i dŷ' ar hyn o bryd, ac yna ddarpariaethau Deddf Elusennau 2006 a'r rheolau awdurdod lleol newydd sydd i'w gweithredu yn fuan yn 2008.
- Ymrwymiad statudol ymddiriedolwyr elusen o dan adran 4(6) Deddf Elusennau 2006 i ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar wahanol agweddau ar fudd cyhoeddus, o ddechrau 2008 ymlaen.
- Gofynion adroddiad a chyfrifon blynyddol Deddf Elusennau 1993 ac yn y Rheoliadau cysylltiedig, a'r Datganiad cyfredol ar Arferion Cymeradwy (SORP) i Elusennau. Rhaid i gyfrifon cwmnïau elusennol gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau gyfredol.
- Y gofynion datgelu a sefydlog sy'n berthnasol i'r math hwnnw o fudiad.
- Gofynion blynyddol a digwyddiadau (e.e. newid ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr) sy'n berthnasol i'r math hwnnw o fudiad.
- Y cofrestri a'r cofnodion (cyfarfodydd a ffeilio) sydd angen eu cadw ar gyfer y math hwnnw o fudiad.
- Materion iechyd a diogelwch.
- Materion cyflogaeth, cyfle cyfartal a gwahaniaethu.
- Materion rheoli risg ac yswiriant.
- Materion eiddo deallusol.

- Materion tir.
- Materion contract.
- Materion diogelu data.
- Effaith treth a TAW ar weithgareddau.

Dyletswydd pwyll – rhaid i ymddiriedolwyr elusen:

- Sicrhau bod yr elusen, ac y bydd yn parhau i fod, yn ddiddyled; mae hyn yn golygu y bydd angen i ymddiriedolwyr elusen ddiweddaru eu hunain yn gyson ynghylch gweithgareddau a sefyllfa ariannol yr elusen.
- Defnyddio cyllid ac asedau'r elusen yn ddoeth, a dim ond yng nghyswllt pwrpas ac er budd yr elusen.
- Osgoi cyflawni gweithgareddau a allai roi eiddo, cyllid, asedau neu enw da'r elusen yn y fantol yn ddiangen.
- Cymryd gofal arbennig wrth fuddsoddi cyllid yr elusen, neu'n benthyg cyllid at ddefnydd yr elusen.

Mae dwy ddarpariaeth yn Neddf Ansolfedd 1986 yn golygu bod ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr yn bersonol atebol os yw cwmni elusennol neu anelusennol mewn trafferth ariannol:

- Masnachu anghyfreithlon (a.214) – gall cyfarwyddwr cwmni fod yn bersonol atebol lle gwyddai, neu y dylai fod wedi gwybod, na allai'r cwmni osgoi methdaliad ansolfedd, a lle nad oedd yn ddigon diwyd yn ei ymdrechion i leihau colled i gredydwyr.
- Masnachu Twyllodrus (a.213) – gall cyfarwyddwr cwmni fod yn bersonol atebol lle cariodd ymlaen gyda'r busnes tra'n ansolfent gyda'r bwriad o dwyllo credydwyr.

Dalier sylw: Mae atebolrwydd o'r math hwn yn brin lle mae cyfarwyddwyr yn ddiwyd o ran monitro a rheoli materion ariannol y cwmni, ond mae'n bwysig cofio mai'r cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithgareddau'r cwmni ac y dylent fonitro'r holl drafodion ariannol dirprwyedig yn ofalus.

Rhaid i'r ymddiriedolwyr ddiogelu cyllid, eiddo ac asedau eraill yr elusen – gan gynnwys asedau anniriaethol fel enw da a hawliau eiddo deallusol (e.e. hawlfraint, nodau masnach, enwau parthau rhyngrwyd) – wrth eu defnyddio er mwyn amcanion yr elusen. Dylid buddsoddi unrhyw arian sy'n weddill, nad oes ei angen yn syth ar weithgareddau'r elusen, yn addas neu ei roi heibio fel arian wrth gefn – rhoddir canllawiau pellach ar hyn yng nghyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, *Investment of Charitable Funds* (CC14) a *Charities' Reserves* (CC19).

Dylid defnyddio asedau dros ben sydd heb eu buddsoddi i gynhyrchu incwm neu gyfalaf lle bo hynny'n bosibl, neu eu gwerthu am bris boddhaol. Dylid defnyddio'r holl gyllid a gynhyrchir o'r ffynonellau hyn i ddatblygu amcanion yr elusen.

Dyletswydd gofal – rhaid i ymddiriedolwyr elusen:

- Ymarfer gofal a sgil rhesymol fel ymddiriedolwyr elusen, a defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad personol i sicrhau bod yr elusen yn cael ei rhedeg yn dda ac effeithlon.
- Ystyried derbyn cyngor proffesiynol o'r tu allan ar bob mater lle gallai fod risg sylweddol i'r elusen, neu lle gallai'r ymddiriedolwyr fod wedi torri eu dyletswyddau.

Mae angen ystyried y Dyletswydd Gofal hwn yn fwy manwl. O dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, mae dyletswydd statudol ychwanegol y tu hwnt i'r dyletswydd gofal uchod. Mae gan ymddiriedolwyr elusennol ac anelusennol ddyletswydd i ymarfer gofal a sgil rhesymol ym mhob sefyllfa wrth ymarfer ystod o bwerau, gan gynnwys pwerau i fuddsoddi, dirprwyo pwerau i asiantau ac eraill, prynu tir, yswirio eiddo, ayb. O dan Adran 1 y Ddeddf, rhaid asesu lefel y gofal a'r sgil o ran:

- unrhyw wybodaeth neu arbenigedd neilltuol sydd gan yr ymddiriedolwr neu yr honnir bod gan yr ymddiriedolwr; a
- lle mae ymddiriedolwr yn gweithredu yng nghwrs busnes neu broffesiwn, o ran unrhyw wybodaeth neu arbenigedd neilltuol y disgwylir yn rhesymol i berson sy'n gweithredu yng nghwrs y math hwnnw o fusnes neu broffesiwn ei gael.

Yn bennaf, nid yw'r dyletswydd hwn yn berthnasol ond yng nghyswllt pwerau a roddir o dan y Ddeddf, ond mae'r llysoedd yn debygol o 'ymhlygu' dyletswydd gofal tebyg ar gyfer pwerau eraill sy'n cael eu hymarfer gan ymddiriedolwyr, a dyma farn y Comisiwn Elusennau.

Er nad yw'r Ddeddf yn berthnasol i ddyletswydd cyfarwyddwyr cwmni mewn cyfraith cwmnïau, mae'n debygol o fod yn gysylltiedig ag ymarfer eu swyddogaethau fel ymddiriedolwyr elusen os yw'r cwmni hefyd yn elusen – hyn, eto, yw barn y Comisiwn Elusennau. Mae'r dyletswydd gofal a gyflwynir gan y Ddeddf yn uwch na'r un a awgrymir gan y gyfraith cwmnïau.

Yn olaf, mae Deddf Cwmnïau 2006 yn cyflwyno nifer o ddyletswyddau statudol i gyfarwyddwyr cwmnïau, fydd yn berthnasol i gwmnïau elusennol ac anelusennol. O fis Hydref 2007 ymlaen, o dan y dyletswyddau statudol hyn, bydd angen i gyfarwyddwyr:

- weithredu o fewn eu pwerau;
- ymarfer sgil a chrebwyll annibynnol;
- ymarfer gofal, sgil a phwyll rhesymol;
- osgoi gwrthdaro budd;
- datgan unrhyw fudd;
- peidio â derbyn unrhyw fudd gan drydydd partïon, a
- hybu llwyddiant y cwmni.

Casgliad

Mae gan swydd yr ymddiriedolwr ddyletswyddau a chyfrifoldebau clir. Oherwydd mai rôl wirfoddol ydyw fel arfer, dylid ond ei chyflawni os yw'r unigolyn yn ymrwymedig i ddatblygu amcanion y mudiad ac mae ganddo ef neu hi rai o'r sgiliau, profiad a'r cyneddfau personol sydd eu hangen ar y mudiad i'w reoli'n strategol.

Gellir cynorthwyo'r broses hon drwy sicrhau bod ymddiriedolwyr yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn ystod eu cwrs cynefino, a gall defnyddio Datganiadau a Disgrifiadau Rôl ymddiriedolwyr atgyfnerthu hyn – rhoddir canllawiau perthnasol yn ein taflen wybodaeth *5.4 Recruitment, selection and induction of governing body members.*

Ar y cyfan, dylai ymddiriedolwyr anelusennol gymeryd bod yr holl ddyletswyddau uchod yr un mor berthnasol iddynt ag i ymddiriedolwyr elusen, a'u cyflawni felly i'r safonau a ragnodir gan y Deddfau Elusennau a Chwmnïau newydd, a chan ganllawiau'r Comisiwn Elusennau. Bydd hyn yn sicrhau bod llai o risg o atebolrwydd personol, eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a bod arferion gorau yn cael eu dangos wrth redeg y mudiad.

Gwybodaeth bellach

Good governance – a code for the voluntary and community sector, and, *Trustee & Management Committee - National Occupational Standards*
www.ncvo-vol.org.uk

Y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr
CC3 *The Essential trustee: What you need to know*
CC60 *Hallmarks of an Effective Charity*
CC11 Payment of Charity Trustees
Yn adran *Arweiniad i Elusennau* y wefan:
How to be and Effective Charity Trustee
Trustee responsibilities
www.charity-commission.gov.uk

Swyddfa'r Cabinet
Deddf Elusennau 2006 a deunyddiau ategol
www.cabinetoffice.gov.uk/third_sector

Tŷ'r Cwmnïau
Deddf Elusennau 2006 a deunyddiau ategol
www.companieshouse.gov.uk

Y Sefydliad Siartredig Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Cwmni
The Role & Duties of Charity Trustees
www.icsa.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:22/11/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk